Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

Lleoliad:

Fideogynhadledd drwy Zoom

Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Tachwedd 2021

Amser: 09.16 - 12.21

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/12487

O bell

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau o'r Senedd:	John Griffiths AS (Cadeirydd) Mabon ap Gwynfor AS Alun Davies AS Joel James AS Sam Rowlands AS Carolyn Thomas AS
Tystion:	Julie James AS, Y Gweinidog Newid Hinsawdd Anna Hind, Llywodraeth Cymru Francois Samuel, Llywodraeth Cymru Yr Athro Nick Gallent, UCL Yr Athro Mark Tewdwr-Jones, UCL
Staff y Pwyllgor:	Manon George (Clerc) Catherine Hunt (Ail Glerc) Chloe Davies (Dirprwy Glerc) Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)

	Jonathan Baxter (Ymchwilydd) Osian Bowyer (Ymchwilydd)

1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

2 Papurau i'w nodi

2.1 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 22 Medi 2021

2.1.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 22 Medi 2021.

2.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 22 Medi 2021

2.2.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 22 Medi 2021.

2.3 Llythyr at y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas ag ail gartrefi.

2.3.a Nododd y Pwyllgor y llythyr at y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas ag ail gartrefi.

2.4 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru: Adroddiadau Blynyddol 2020-21

2.4.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad mewn perthynas â Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru a Phanel Dyfarnu Cymru: Adroddiadau Blynyddol 2020-21.

2.5 Llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

2.5.a Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Newid Hinsawdd mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir).

3 Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diogelwch Adeiladau - sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd.

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd

Anna Hind, Cyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Francois Samuel, Pennaeth Polisi Rheoliadau Adeiladu, Llywodraeth Cymru.

4 Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth 1 - academyddion

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Yr Athro Nick Gallent, Athro ym maes Tai a Chynllunio, Ysgol Gynllunio Bartlett, Cyfadran yr Amgylchedd Adeiledig, Coleg Prifysgol Llundain
- Yr Athro Mark Tewdwr-Jones, Athro ym maes Dinasoedd a Rhanbarthau, Canolfan Dadansoddi Gofodol Uwch, Cyfadran yr Amgylchedd Adeiledig, Coleg Prifysgol Llundain.

5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

5.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig

6 Ymchwiliad i ail gartrefi - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 4.

6.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

7 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diogelwch Adeiladau

7.1 Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a'r dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 3, er mwyn llywio ei adroddiad drafft.

8 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir)

8.1 Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliad (Rhent Tir) a chytunodd i ysgrifennu at y Gweinidog Newid Hinsawdd.

9 Diweddariad ar sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBCau)

9.1 Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad ar sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig.